**Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

**Dydd Mercher 23 Tachwedd 2022 (10:30 – 14:10), Y Llwyfan, Caerfyrddin**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddwyr:** | Dr Aled Eirug (Cadeirydd)<br>Ann Beynon<br>Nia Elias<br>Rhys Evans<br>Meri Huws<br>Yr Athro Anwen Jones<br>Angharad Roberts<br>Llinos Roberts<br>Yr Athro Enlli Thomas |
| **Sylwedydd:** | Dr Cliona O'Neill (CCAUC/HEFCW) |
| **Swyddogion:** | Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr)<br>Dr Dylan Phillips (Ysgrifennydd)<br>Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd)<br>Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant)<br>Gwenllian Griffiths (Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu)<br>Dafydd Gwyn Jones (Rheolwr Cyllid) – Eitemau 8, 9 a 18<br>Dr Lowri Morgans (Rheolwr Addysg Bellach a Phrentisiaethau) – Eitemau 12 a 13 |
| **Ymddiheuriadau:** | William Callaway, Gwilym Dyfri Jones, Pedr ap Llwyd ac Alan Jones (Llywodraeth Cymru) |

**Cofnodion Cyfarfod 23 Tachwedd 2022**

## 1. Eitem 1 – Croeso, ymddiheuriadau a materion rhagarweiniol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. | | |
| 1.2 | Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. | | |

## 2. Eitem 2 – Datganiadau o ddiddordeb

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Atgoffwyd yr aelodau o’r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. | | |
| 2.2 | Datganodd Angharad Roberts ddiddordeb yn yr argymhelliad i ymestyn cytundebau Sgiliaith yn adroddiad y Prif Weithredwr. | | |

## 3. Eitem 3 – Cofnodion 6 Gorffennaf 2022

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o’r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022. | | |

## 4. Eitem 4 – Materion yn codi

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Nid oedd materion yn codi nad oedd yn ymddangos ar yr agenda. | | |

## 5. Eitem 5 – Materion y Cadeirydd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi cynnal sgyrsiau gyda phob un o’r cyfarwyddwyr yn eu tro ac wedi ymuno â phob cyfarfod o brif bwyllgorau a byrddau’r Coleg yn ystod y tymor a oedd wedi bod yn ddefnyddiol i ddeall ystod gwaith y Coleg. | | |
| 5.2 | Argymhellodd cynnal cyfarfod strategol ychwanegol i galendr cyfarfodydd y Bwrdd a chytunwyd i drefnu cyfarfod ym mis Mai 2023. | Trefnu cyfarfod ym mis Mai 2023 | Erbyn diwedd 2022 |
| 5.3 | Cynigiodd ddarparu adroddiad ysgrifenedig i gyfarfodydd y Bwrdd petai aelodau’n dymuno ond argymhellwyd y byddai diweddariad e-bost rhwng cyfarfodydd petai angen yn ddigonol. | | |

## 6. Eitem 6 – Adroddiad y Prif Weithredwr

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 6.1 | Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.2 | **Cadeirydd**<br>Adroddodd y Prif Weithredwr ei fod yn cydweithio’n agos gyda’r Cadeirydd newydd, ar faterion polisi a strategaeth yn enwedig, a bod trefn o gyfarfodydd diweddaru rheolaidd wedi eu sefydlu. | | |
| 6.3 | **Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a’r Bil Addysg Gymraeg**<br>Adroddodd y byddai’r cyfarfod caeëdig yn ystod y prynhawn yn gyfle i drafod perthynas y Coleg â’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a’r Bil Addysg Gymraeg. | | |
| 6.4 | **Addysg Uwch**<br>Adroddwyd bod astudiaeth *London Economics* ar gyllido a chostau addysg uwch cyfrwng Cymraeg wedi ei rhannu gan y Cyngor Cyllido, ac y byddai ar gael yn swyddogol yn fuan.<br>Ategodd Dr Cliona O’Neill bod yr adroddiad yn cadarnhau bod costau sylweddol uwch ar gyfer darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |
| 6.5 | **Addysg Bellach a Phrentisiaethau**<br>Adroddwyd ar y cynnydd pwrpasol ym meysydd Addysg Bellach a Phrentisiaethau a’r amserlen ar gyfer adolygu’r strategaeth.<br>Yn dilyn esboniad o’r cyd-destun, cytunwyd i argymhelliad i ymestyn cytundebau presennol gyda Sgiliaith ym meysydd hyfforddiant a mentora. Cytunwyd ar 31 Gorffennaf 2024 fel y dyddiad terfyn newydd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nodwyd yr adroddir ar yr amrywiad cytundebol hwn i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Risg. | Adrodd yr amrywiad cytundebol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg | 28 Chwefror 2023 |
| 6.6 | **Cymdeithas Ddysgedig Cymru**<br>Adroddwyd ar y cyfarfod a fu rhwng y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a Llywydd a Phrif Weithredwr y Gymdeithas Ddysgedig i ail sefydlu perthynas agosach. | | |
| 6.7 | **Cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**<br>Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at benodiad Efa Gruffydd Jones fel Comisiynydd y Gymraeg a'i fod yn croesawu'r perthynas weithio newydd.<br>Adroddwyd mewn perthynas â chynllun Cymraeg Gwaith y byddai'r cyllid yn cael ei ddosrannau i golegau addysg bellach yn uniongyrchol gan y Coleg o 1 Ebrill 2023 ymlaen, yn hytrach na thrwy GolegauCymru. Nodwyd bod sefyllfa TUPE yn codi fel canlyniad. Adroddir ar y datblygiad hwn i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol nesaf.<br>Adroddwyd ar y datblygiad i rannu gofod swyddfa gyda'r Ganolfan mewn lleoliad yn y gogledd er mwyn hwyluso cydweithio agosach a sicrhau costau mwy effeithlon. | Adrodd i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | 25 Ionawr 2023 |
| 6.8 | **Llesiant**<br>Adroddwyd ar y cynllun peilot lle mae pob aelod o staff llawn amser yn treulio o leiaf deuddydd yr wythnos yn y swyddfa. Bydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yn derbyn adroddiad ar y cynllun peilot gweithio hybrid ar 25 Ionawr 2023. | | |

## 7. Eitem 7 – Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 7.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 21 Medi 2022. | | |
| 7.2 | **Gweithdrefnau Penodi diwygiedig**<br>Nodwyd bod y gweithdrefn penodi i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a'i bwyllgorau wedi cael ei ddiweddaru yn ôl argymhellion y Bwrdd yng nghyfarfod fis Gorffennaf. | | |
| 7.3 | **Ail-benodi cyfarwyddwyr**<br>Ar y pwynt hwn cytunodd yr aelodau nad oedd angen i Nia Elias, Angharad Roberts a Meri Huws adael y drafodaeth.<br>Cadarnhawyd ail-benodiad cyfarwyddwyr am bedair blynedd fel a ganlyn:<br>• Nia Elias – o 29 Tachwedd 2022<br>• Angharad Roberts – o 1 Mawrth 2023<br>• Meri Huws – o 1 Ebrill 2023 | | |
| 7.4 | **Penodi aelodau i bwyllgorau'r Bwrdd**<br>Nodwyd penodiadau ar argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant fel a ganlyn:<br>• Gwyndaf Tobias, Lowri Williams a Non Gwilym – Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol<br>• Paul Peters – Pwyllgor Archwilio a Risg | | |

## 8. Eitem 8 - Pwyllgor Archwilio a Risg

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| | Ar y pwynt hwn ymunodd Dafydd Jones â'r cyfarfod. | | |
| 8.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2022.<br>Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 26 Hydref 2022, gan y Cofrestrydd:<br>• y penodwyd Bevan Buckland fel Archwilwyr Allanol newydd y Coleg<br>• bod y pwyllgor yn craffu ar ddiogelwch seibr gan gynnwys y posibilrwydd o gynnal prawf treiddiad (hacio moesegol) maes o law | | |
| 8.2 | **Cyfrifon Blynyddol Archwiliedig y Coleg 2021/22**<br>Cyflwynwyd cyfrifon blynyddol archwiliedig y Coleg ar gyfer 2021/22 gan Reolwr Cyllid y Coleg.<br>Adroddwyd ar yr ymrwymiadau pensiynau tymor hir a olygai fod colled yng nghyfrifon eleni.<br>Nodwyd archwiliad glân yr Archwilwyr Allanol.<br>Derbyniwyd a chymeradwywyd y cyfrifon. Nodwyd y byddant yn cael eu hadrodd yn ffurfiol i'r Llys ar 20 Mawrth 2023. | | |
| 8.3 | **Y Gofrestr Risg**<br>Nodwyd bod y Gofrestr Risg yn cael eu hadolygu gan y swyddogion i adlewyrchu datblygiadau yng ngwaith y | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Coleg yn y sectorau addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau. | | |

## 9. Eitem 9 - Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 9.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 28 Medi 2022. | | |
| 9.2 | **Chwyddiant**<br>Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch effaith chwyddiant ar weithgareddau'r Coleg eglurwyd na fu cynnydd yng nghyllideb graidd y Coleg ar gyfer addysg uwch ers 2016/17 tan eleni, a bod y cynnydd eleni ar gyfer prosiectau penodol newydd.<br>Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i ofyn i'r swyddogion ystyried y mater ymhellach gyda golwg ar gynnal trafodaeth yn y cyfarfod strategol fis Mai. | Eitem agenda i'r cyfarfod strategol | Mai 2023 |
| 9.3 | **Strategaethau Marchnata a Chyfathrebu**<br>Adroddwyd y cyflwynir Strategaethau Marchnata a Chyfathrebu i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion nesaf. | | |
| | Ar y pwynt hwn ymadawodd Dafydd Jones y cyfarfod | | |

## 10. Eitem 10 – Bwrdd Academaidd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 10.1 | Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2022.<br>Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 12 Hydref 2022, gan yr Ysgrifennydd:<br>Nododd:<br>• **Cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd yn y dyfodol** – yn dilyn cynnal cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd yn rhithiol ers tair blynedd, argymhellwyd y dylid cynnal o leiaf un cyfarfod o'r Bwrdd yn flynyddol wyneb yn wyneb gan drefnu bod gweithgaredd ategol yn digwydd ar yr un diwrnod, yn ddibynnol ar sefyllfa Covid<br>• **Prosiect mesur agweddau myfyrwyr** – adroddwyd bod y prosiect yn mynd rhagddo<br>• **Addysg Gychwynnol Athrawon** – adroddwyd bod y Coleg o'r farn nad yw'r Cynllun Gweithlu Addysg, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ddigon uchelgeisiol.<br>• **Cynllunio Academaidd** – cyflwynwyd crynodeb gweithredol y cynllun academaidd a gymeradwywyd gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 6 Gorffennaf 2022 gan yr Ysgrifennydd. Cyfeiriwyd yn benodol at dair blaenoriaeth y cynllun tra nodwyd hefyd fod y camau gweithredu ar waith | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • **Gweithgareddau myfyrwyr** – cyflwynodd cynrychiolwyr y myfyrwyr ddiweddariad ar weithgareddau myfyrwyr yn eu priod sefydliadau yn ystod wythnosau cyntaf y tymor newydd<br>• **Prosiect cadw cyswllt** – cafwyd cyflwyniad ar y prosiect cadw cyswllt gyda myfyrwyr y tu hwnt i Gymru. | | |
| 10.2 | Wrth drafod rôl y Bwrdd Academaidd wrth sefydlu strategaeth cynllunio pynciol addysg uwch y Coleg ddegawd yn ôl adroddwyd bod y Bwrdd Strategol ôl-16 yn datblygu strategaeth yn yr un modd ym meysydd addysg uwch a phrentisiaethau.<br>Eglurwyd mai dyma oedd fforwm codi materion ar lefel prifysgol, myfyrwyr a changen.<br>Yn ystod y drafodaeth ystyriwyd sut fyddai orau i dynnu llais y myfyriwr addysg uwch a'r dysgwr addysg bellach ynghyd mewn un fforwm.<br>Argymhellwyd cynnal asesiad o'r Bwrdd Academaidd wrth i dymor Gwilym Dyfri Jones (cadeirydd) ddod i ben. | Cynnal asesiad o rôl y Bwrdd Academaidd | Haf 2023 |

**11. Eitem 11 – Addysg Uwch**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 11.1 | **Cynllun Academaidd - Eitem 11i ac Atodiad A**<br>Cyflwynwyd papur ar bennu targedau myfyrwyr Addysg Uwch y Coleg gan yr Ysgrifennydd.<br>Adroddwyd ar y model a'r fformiwla, a amlinellwyd yn y ddogfen gynllunio mewnol a rannwyd, i bennu targedau | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | am y 10 mlynedd nesaf yn dilyn dechrau gweithredu'r Cynllun Academaidd newydd ers mis Medi 2022.<br>Adroddwyd y byddai pennu targedau uchelgeisiol ond credadwy a rhesymol ar gyfer pob darparwr yn ddibynnol ar (i) sefyllfa amrywiol bynciau o fewn sefydliad a (ii) natur y gynulleidfa ieithyddol o fewn sefydliad.<br>Mewn ymateb i gwestiynau nodwyd y darperir y model a'r fformiwla fel canllaw cenedlaethol i'r sector ac y byddai'r fframwaith yn caniatáu torri grantiau petai darparwyr ddim yn cyrraedd targedau.<br>Yn ystod y drafodaeth adroddwyd bod y Grŵp Ymgynghorol yn croesawu'r model a'r fformiwla.<br>Ategodd Dr Cliona O'Neill bod targedau sefydliadol a chenedlaethol yn bwysig a chyfeiriodd at ddata mesuryddion cenedlaethol 2021 y byddai'n rhannu gyda'r swyddogion.<br>Yn dilyn trafodaeth lawn cymeradwywyd y model a'r fformiwla, a amlinellwyd yn y ddogfen gynllunio mewnol a rannwyd, ar gyfer pennu targedau myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. | | |
| 11.2 | **Addysg Gychwynnol Athrawon – Eitem 11ii**<br>Cyflwynwyd diweddariad ar Addysg Gychwynnol Athrawon gan y Cofrestrydd.<br>Adroddwyd ar Gynllun 10 mlynedd y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg ac nad yw'r amcanion yn ddigon uchelgeisiol.<br>Trafodwyd y goblygiadau i'r sector a phwysigrwydd rôl y Coleg i gynghori a dylanwadu ar Gweithlu'r Gymraeg | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mewn Addysg – Grŵp Gweithredu Allanol dan gadeiryddiaeth Dr Rhodri Llwyd Morgan.<br>Nodwyd y diweddariad, a derbyniwyd bod rôl strategol gan y Coleg i ddylanwadu ac ymateb i nodau Llywodraeth Cymru ym maes Addysg Gychwynnol Athrawon. | | |

**12. Eitem 12 – Bwrdd Strategol ôl-16**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| | Ar y pwynt hwn ymunodd Dr Lowri Morgans â'r cyfarfod | | |
| 12.1 | Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 25 Hydref 2022, gan Meri Huws, Cadeirydd y Bwrdd Strategol ôl-16:<br>Nododd:<br>• y cyflwynwyd papur ar fesuryddion Cynllun Addysg Bellach a Phrentisiaethau<br>• y cafwyd cyflwyniad gan Cymwysterau Cymru<br>• y cafwyd diweddariad ar yr adolygiad i gymwysterau galwedigaethol gan Sharron Lusher | | |
| 12.2 | Estynnwyd gwahoddiad i aelodau'r Bwrdd i gyfarfodydd y Bwrdd Strategol ôl-16. | | |

## 13. Eitem 13 – Addysg Bellach a Phrentisiaethau

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 13.1 | **Diweddariad Addysg Bellach a Phrentisiaethau – Eitem 13i ac Atodiad A**<br>Cyflwynwyd diweddariad ar ddatblygiadau ym meysydd addysg bellach a phrentisiaethau gan Dr Lowri Morgans.<br>Croesawyd y ffaith fod y pyramid iaith yn rhan o argymhellion Dr Steve Bell i Lywodraeth Cymru yn ei adroddiad ar ddarpariaeth addysg gychwynnol athrawon i’r sector. Nodwyd pa mor bwysig yw gwreiddio’r iaith yn yr hyfforddiant a’r egwyddor y dylid rhannu’r arfer ymysg pob sector.<br>Nodwyd y penodwyd Lisa O’Connor dros gyfnod mamolaeth Dr Lowri Morgans.<br>Nodwyd y diweddariad gan gynnwys mesuryddion y strategaeth a rannwyd. | | |
| 13.2 | **Darpariaeth alwedigaethol mewn ysgolion – Eitem 13ii**<br>Cyflwynwyd dogfen ar berthynas y Coleg gyda darpariaeth alwedigaethol mewn ysgolion a baratowyd ar gais y Bwrdd fis Gorffennaf.<br>Yn dilyn trafodaeth lawn, a oedd yn cydnabod sensitifrwydd y sefyllfa, argymhellwyd cynnal arolwg o’r ddarpariaeth alwedigaethol gyfredol mewn ysgolion a chyflwyno argymhellion i’r Bwrdd maes o law. | Cynnal arolwg a chyflwyno argymhellion i’r Bwrdd | Tymor y gwanwyn / haf 2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nododd y Prif Weithredwr fod y mater hwn yn berthnasol iawn yng nghyd-destun sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. | | |
| | Ar y pwynt hwn ymadawodd Dr Lowri Morgans y cyfarfod | | |

## 14. Eitem 14 - Materion cyfansoddiadol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 14.1 | **Fframwaith Llywodraethiant – Eitem 14i**<br>Cyflwynwyd Fframwaith Llywodraethiant y Coleg gan yr Ysgrifennydd.<br>Drafftiwyd y ddogfen er mwyn diffinio'r cyfrifoldebau a ddirprwyir gan y Bwrdd i'r Prif Weithredwr a'r swyddogion ar gais y Bwrdd ym mis Gorffennaf.<br>Cymeradwywyd y ddogfen gyda diolch am gyfraniad Pedr ap Llwyd. | | |
| 14.2 | **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Llys) y Coleg**<br>Nodwyd y cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Llys) y Coleg ar 20 Mawrth 2023 ar ffurf rithiol. | | |
| 14.3 | **Cylchoedd Gorchwyl - Eitem 14iii**<br>Cyflwynwyd a chymeradwywyd diwygiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant. | | |
| 14.4 | Cyflwynwyd a chymeradwywyd cylchoedd gorchwyl y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, y Pwyllgor | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Archwilio a Risg, y Bwrdd Academaidd a'r Bwrdd Strategol ôl-16 yn ddigyfnewid. | | |

## 15. Eitem 15 – Cynulliad Blynyddol 2023

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 15.1 | **Cynulliad Blynyddol y Coleg**<br>Nodwyd y cynhelir Cynulliad Blynyddol y Coleg ar 21 Mawrth 2023 yng Nghaerdydd i dderbyn Cymrodyr y Coleg ac i gydnabod myfyrwyr doethuriaeth. | | |
| 15.2 | **Cymrodyr er anrhydedd 2023 - CYFRINACHOL**<br>Cymeradwywyd gwahodd yr Athro Sioned Davies, Dr Haydn E Edwards a Delyth Murphy i'w hurddo fel Cymrodyr er anrhydedd yn y Cynulliad Blynyddol.<br>Pwysleisiwyd bod yr enwau'n parhau'n gyfrinachol tan y cyhoeddiad swyddogol. | | |

## 16. Eitem 17 - Cyfarfodydd nesaf

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 16.1 | Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:<br>• 22 Mawrth 2023, Caerdydd<br>• 17 Mai 2023, Aberystwyth*<br>• 28 Mehefin 2023 | | |
| 16.2 | * Yn fuan wedi'r cyfarfod cadarnhawyd 17 Mai 2023 fel dyddiad ar gyfer cyfarfod arall. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ar y pwynt hwn ymadawodd Dr Cliona O'Neill a'r cyfieithwyr ar y pryd. | | |

**17. Eitem 18 – Buddsoddiadau a chronfeydd wrth gefn y Coleg (caeëdig)**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| | Ar y pwynt hwn ail-ymunodd Dafydd Jones â'r cyfarfod. | | |
| 17.1 | Cyflwynwyd adroddiad ar fuddsoddiadau a chronfeydd wrth gefn y Coleg gan y Cofrestrydd.<br>Nodwyd y cefndir hanesyddol ac argymhellion yr Archwilwyr Allanol. | | |
| 17.2 | Yn dilyn trafodaeth lawn cytunwyd y dylid cadw lefel y cronfeydd wrth gefn. | | |
| 17.3 | Yn dilyn trafodaeth lawn cytunwyd y dylid gofyn i'r rheolwr buddsoddi adnabod yr adeg cywir i adolygu dosraniad y buddsoddiadau ar draws y gwahanol gronfeydd sef symud y cronfeydd tymor canolig i'r cronfeydd tymor hir. | Gofyn i'r rheolwr buddsoddi (Sarasin) weithredu'r argymhelliad pan yn briodol | Cyn diwedd Medi 2023 |
| | Ar y pwynt hwn ymadawodd Dafydd Jones y cyfarfod | | |

**18. Eitem 19 - Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (caeëdig)**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 18.1 | Cyflwynwyd diweddariad ar sefydlu y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil gan y Prif Weithredwr. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18.2 | Adroddwyd bod swyddi Cadeirydd, Is-Gadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol y Comisiwn wedi'u hysbysebu.<br>Nodwyd bod y Coleg yn aelod o'r Bwrdd Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol sy'n cynghori ar sefydlu'r Comisiwn.<br>Adroddwyd y bydd cytuno ar berthynas y Comisiwn a'r Coleg yn flaenoriaeth yn ystod y 6-12 mis nesaf.<br>Adroddwyd bydd y trafodaethau gyda CCAUC yn parhau o ran costau darpariaeth cyfrwng Cymraeg addysg uwch a chyfle i gytuno gyda'r Comisiwn ar gynllun addas yn y cyswllt hwn.<br>Adroddwyd ymhellach fod perthynas dda wedi ei sefydlu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru o ran addysg bellach a phrentisiaethau a hyderir y bydd hynny'n trosglwyddo'n effeithiol wedi sefydlu'r Comisiwn.<br>Nodwyd amserlen sefydlu'r Comisiwn a'r cylch gorchwyl yn yr atodiadau a ddosbarthwyd. | | |
| 18.3 | Atebwyd nifer o gwestiynau ynghylch symud staff i weithio i'r Comisiwn o adran Addysg Bellach Llywodraeth Cymru a CCAUC a pharhad cytundebau prentisiaethau. | | |
| 18.4 | Cytunwyd y dylid gofyn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg am y broses ar gyfer dynodi'r Coleg yn ffurfiol fel corff y disgwylir i'r Comisiwn ymgynghori'n llawn ag ef yn unol â'r ddeddfwriaeth. | Trafod gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg | Gaeaf 2022/23 |

## 19. Eitem 20 – Bil Addysg Gymraeg (caeëdig)

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 19.1 | Rhoddwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr am drafodaethau ar sail Chatham House sydd yn cael eu cynnal gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Disgwylir i bapur gwyn gael ei gyhoeddi yn y gwanwyn | | |
| 19.2 | Mynegodd nifer o aelodau'r Bwrdd y dylid cael eglurder gan Lywodraeth Cymru ar bwrpas unrhyw ddeddfwriaeth a fyddai'n effeithio ar waith y Coleg, a sut y byddai'n cyfrannu tuag at nodau polisi Cymraeg 2050.<br>Nodwyd pwysigrwydd rhoi ystyriaeth lawn i fanteision ac anfanteision cynigion o fewn unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig a fyddai'n effeithio ar strwythurau llywodraethiant y Coleg. | Trafod gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg | Gaeaf 2022/23 |
| 19.3 | Cytunwyd bod y Coleg yn gofyn am ddyddiad ar gyfer cyfarfod gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg*<br><br>*Yn fuan wedi'r cyfarfod cadarnhawyd 17 Ionawr 2023 fel dyddiad ar gyfer cyfarfod. | | |